

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 2.00 pm

PRESENT: County Councillor Su McConnel (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: Rachel Buckler, Laura Wright, Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler, Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Mary Ann Brocklesby, Fay Bromfield, Jane Lucas, Emma Bryn, Peter Strong, Meirion Howells, Paul Griffiths, Jackie Strong, Rachel Garrick, Maria Stevens, Steven Garratt, Angela Sandles, Ben Callard, John Crook, Tomos Davies, Dale Rooke, Sue Riley, Jayne McKenna, Jill Bond, Louise Brown, Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards, Martyn Groucutt, Richard John, David Jones, Penny Jones, Malcolm Lane, Phil Murphy, Paul Pavia, Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas, Armand Watts and Ann Webb

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jane Rodgers	Pennaeth Gwasanaethau Plant
Will Mclean	Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Nicola Perry	Uwch Swyddog Democratiaeth
Frances O'Brien	Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Ian Saunders	Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy
James Williams	Chief Officer Law & Governance

APOLOGIES:

County Councillors Simon Howarth

1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

Nodwyd.

3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Gorffennaf 2024

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir. .

4. Deiseb i'r Cyngor - Adfer y Lloches Nos yn Nhrefynwy

Cyflwynodd y Cynghorydd Sirol Louise Brown ddeiseb i adfer lloches nos yn Nhrefynwy ar ran y Cynghorydd Sirol Jane Lucas.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Sirol Paul Griffiths i'r Eglwysi yng Ngrŵp Tai Trefynwy am ddod â'r ddeiseb, gan groesawu'r cyfle i drafod, mewn trafodaeth gyhoeddus, y sefyllfa ddigartrefedd yn Sir Fynwy.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 2.00 pm

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd ymrwymiad i gwrdd ag Eglwysi yn Nhrefynwy fel y gellid gwneud cytundeb ar sut i gydweithio i ddod o hyd i lety addas a darparu cefnogaeth i bobl ddigartref yn Nhrefynwy. Yn dilyn hyn, bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Lleodd.

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig i'r ddeiseb gael ei chyfeirio at y Cabinet.

https://www.youtube.com/live/xlPra7V_a9o?si=JJ1rWnwblEE92dBy&t=271

5. Adroddiadau i'r Cyngor:

6. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023/24

Cyflwynodd Andrew Blackmore, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor gan egluro bod y Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau a'i fod wedi bod yn effeithiol wrth ddwyn swyddogion i gyfrif a hefyd yn eu cefnogi i wneud gwelliannau wedi'u targedu.

Roedd pryderon na chafodd ailstrwythuro adrannau Cyllid ac Archwilio eu gweithredu'n llawn eto. Roedd yn destun pryder arbennig nad oedd Prif Archwilydd Mewnol parhaol wedi'i benodi. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod hyn yn siomedig a dylai fod yn destun pryder i'r Cyngor.

O ran risg, mynegodd Mr Blackmore bryder ynghylch yr ansicrwydd y mae diffyg y penodiad hwn yn ei achosi i'r tîm presennol o fewn y swyddogaeth archwilio fewnol, ond ychwanegodd, yn bwysicach, ei fod yn gosod tôn o amgylch arweinyddiaeth, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

https://www.youtube.com/live/xlPra7V_a9o?si=M6LNWMRtrDp2wYUV&t=1240

7. PENODIAD I GORFF ALLANOL

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu, y Cynghorydd Sirol Angela Sandles yr adroddiad i benodi Cynghorydd Sir Fynwy i fod yn gynrychiolydd ar Elusen Gwaddol Ysgolion Rachel Herbert.

Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo penodi'r aelod ar gyfer Ward Grofield, y Cynghorydd Sirol Laura Wright, yn gynrychiolydd i'r corff allanol.

https://www.youtube.com/live/xlPra7V_a9o?si=FN2pbETOEjvaAEYW&t=1705

8. Hunanasesiad 2023/24

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i adroddiad hunanasesu 2023/24 er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n cael asesiad clir a thryloyw o berfformiad yr awdurdod yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:

Cymeradwyo'r hunanasesiad ar gyfer 2023/24.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 2.00 pm**

https://www.youtube.com/live/xlPra7V_a9o?si=i_VfAOmlZy6KJKt4&t=1769

9. Pobl sydd â Phrofiad Gofal

Cyflwynodd y Cynghorydd Sirol Ian Chandler, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch yr adroddiad er mwyn i'r Cyngor ystyried mesurau arfaethedig y gall y Cyngor eu rhoi ar waith i helpu pobl sydd â phrofiad gofal (pobl sydd wedi treulio amser mewn gofal pan oeddent o dan 18 oed) i oresgyn yr anfanteision a'r gwahaniaethu y maent yn eu profi.

Ar ôl cael ei roi i bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

Bod 'pobl sydd â phrofiad gofal' yn cael ei ychwanegu at Asesiad Effaith Integredig y Cyngor, fel bod unrhyw effaith penderfyniadau polisi ar bobl sydd â phrofiad gofal yn cael ei nodi a'i ystyried pan wneir y penderfyniadau hynny.

O ran recriwtio, ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwarantu cyfweiliad i unigolion sydd wedi bod yng ngofal Cyngor Sir Fynwy, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf dethol a nodir yn y swydd-ddisgrifiad. Cynigir ehangu hyn i unigolion sydd wedi bod yng ngofal Awdurdodau Lleol eraill.

Wrth osod ac adolygu Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, cynigir bod y Cyngor yn cynnwys ystyriaeth o sut y gallai oresgyn yr anfanteision a'r gwahaniaethu a brofir gan bobl â phrofiad gofal.

https://www.youtube.com/live/xlPra7V_a9o?si=LaaCYc5k2bl2B0C9&t=2968

10. Cynigion i'r Cyngor:

11. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Frances Taylor

Bod y Cyngor hwn yn cydnabod pryder trigolion Magwyr gyda Gwndy ynghylch cwtoegi gwasanaethau meddygfeydd lleol a chau Meddygfa Magwyr yn y prynhawn.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi nad yw "Polisi Darparu Newid i Wasanaethau" y Bwrdd Iechyd wedi gwneud darpariaeth o'r blaen ar gyfer ymgysylltu â chleifion neu ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach fel cynghorwyr lleol, ac mae'n croesawu, yn dilyn trafodaeth ddiweddar, fod y Bwrdd Iechyd wedi cydnabod gwerth a phwysigrwydd ymgysylltu o'r fath a bydd yn diweddarau'r polisi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.

Bellach, bod y cyngor hwn yn cytuno i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a sefydliadau perthnasol eraill megis Llais a GIG Cymru i ofyn am eglurhad ar y broses apelio berthnasol ar gyfer y penderfyniad o ran Meddygfa Magwyr, ac i sicrhau manylion y newidiadau arfaethedig i'r polisi newid gwasanaeth gan gyfeirio penodol at ymgysylltu a chyfathrebu, a Gofynion Asesiad Effaith Integredig Cenedlaethau'r Dyfodol/Cydraddoldeb.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol David Jones.

https://www.youtube.com/live/xlPra7V_a9o?si=aeollPzVZTIXVgi3&t=3793

Ar ôl cael ei roi i bleidlais cafodd y cynnig ei dderbyn.

Gadawodd y Cynghorydd Sirol Frances Taylor y cyfarfod am 3.40pm

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 2.00 pm

12. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Richard John

Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth y DU i gyfyngu ar y Taliad Tanwydd Gaeaf dim ond i bensiynwyr sy'n derbyn budd-daliadau prawf modd fel Credyd Pensiwn.

Yn nodi effaith amcangyfrifedig y penderfyniad hwn ar dros 20,000 o bensiynwyr Sir Fynwy, rhai ohonynt ychydig uwchlaw'r trothwy ar gyfer Credyd Pensiwn ac mae angen yr arian arnynt i gadw'n gynnes y gaeaf hwn.

Yn cytuno i gyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth leol dan arweiniad y Cyngor ynghylch cymhwysedd ar gyfer Credyd Pensiwn gall helpu ein trigolion tlotaf i gael mynediad at y Taliad Tanwydd Gaeaf.

Yn cytuno y bydd yr Arweinydd yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys yn gofyn am adolygiad o'r penderfyniad i gyfyngu ar y Taliad Tanwydd Gaeaf a gofyn i'r llywodraeth sicrhau bod pensiynwyr bregus, yn enwedig y rhai nad ydynt yn hawlio Credyd Pensiwn, yn cael eu diogelu rhag tlodi tanwydd.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Lisa Dymock.

https://www.youtube.com/live/xIPra7V_a9o?si=6XgHq_F0Yh0uKcQZ

Cynigiodd y Cynghorydd Sirol Ian Chandler ddiwygiad:

Mae'r Cyngor hwn:

Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth y DU i gyfyngu ar y Taliad Tanwydd Gaeaf i bensiynwyr sy'n derbyn Credyd Pensiwn yn unig a rhai budd-daliadau prawf modd eraill.

Yn nodi effaith amcangyfrifedig y penderfyniad hwn ar lawer o bensiynwyr Sir Fynwy, rhai ohonynt ychydig ond ychydig uwchben y trothwy ar gyfer Credyd Pensiwn ac angen yr arian i gadw'n gynnes y gaeaf hwn.

Yn cymeradwyo'r gwaith y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ei wneud i gefnogi preswylwyr sy'n agored i dlodi tanwydd, gan gynnwys ymgyrchoedd ymwybyddiaeth leol a chyngor ynghylch cymhwysedd ar gyfer Credyd Pensiwn i helpu ein preswylwyr tlotaf i gael y Taliad Tanwydd Gaeaf a budd-daliadau eraill

Yn galw ar Ganghellor y Trysorlys i adolygu'r penderfyniad i gyfyngu ar y Taliad Tanwydd Gaeaf a sicrhau bod pensiynwyr agored i niwed, yn enwedig y rhai nad ydynt yn hawlio Credyd Pensiwn, yn cael eu hamddiffyn rhag tlodi tanwydd.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Howells

Ar ôl cael ei roi i bleidlais fe gafodd y diwygiad ei dderbyn a chafwyd trafodaeth ar y cynnig, fel y'i diwygiwyd.

https://www.youtube.com/live/xIPra7V_a9o?si=xd9vIFJNs39hNQWC&t=8085

Ar ôl cael i roi i bleidlais cafodd y cynnig, fel y'i diwygiwyd, ei dderbyn.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 2.00 pm

13. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Richard John

Yn nodi bod dros 12% o ddisgyblion oedran ysgol sy'n byw yn Sir Fynwy yn mynychu ysgolion annibynnol.

Yn mynegi pryder am yr amharu ar addysg plant sy'n debygol o gael ei achosi gan bolisi Llywodraeth y DU o godi TAW ar ffioedd ysgol.

Yn cyfarwyddo'r weinyddiaeth i gyhoeddi cynlluniau i liniaru effaith y polisi hwn ar blant Sir Fynwy gan gynnwys darparu lleoedd mewn ysgolion lleol a chefnogi plant yr amharwyd ar eu haddysg.

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Alistair Neill

https://www.youtube.com/live/xlPra7V_a9o?si=gsxCoVXE2XXRyv9J&t=9979

Ar ôl cael ei gyflwyno i'r bleidlais, trechwyd y cynnig.

14. Cwestiynau'r Aelodau:

15. O'r Cynghorydd Sirol Jackie Strong i'r Cynghorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a'r Dirprwy Arweinydd

A all yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Cyngor Sir Fynwy i hwyluso agor Swyddfa'r Post yng Nghanol Tref Cil-y-coed?

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod disgwyl i'r Swyddfa Bost newydd yng Nghanol Tref Cil-y-coed agor ddydd Llun 14^{eg} Hydref, yn yr hen siop a elwir yn Country Flowers. Atgoffwyd yr aelodau fod Swyddfa'r Post blaenorol wedi cau pan gaeodd y safle lletyol. Trafododd y Cyngor gyda Chymdeithas Tai Sir Fynwy i gadw uned yn Holman House a gweithiodd mewn partneriaeth â Swyddfa'r Post Cyf i farchnata'r cyfle i fusnesau lleol.

Wrth ymgymryd â'r gwaith, mae'r Cyngor wedi gallu defnyddio cefnogaeth Rhaglen Grant Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru ac mae'n darparu cyllid grant i'r busnes newydd i adnewyddu'r uned.

Fel cwestiwn atodol gofynnodd y Cynghorydd Sirol Jackie Strong i'r Aelod Cabinet ddiolch ar ran trigolion a chyd-gynghorwyr i Brif Swyddog Cymunedau a Lle a'i chydweithwyr.

16. O'r Cynghorydd Sirol Fay Bromfield i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

A all yr aelod cabinet gadarnhau pa gamau y mae hi'n eu cymryd i fynd i'r afael â mater Llysiau'r Gingroen?

Roedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol o'r pryderon ac eglurodd fod Llysiau'r Gingroen yn frodorol i'r DU ac yn fuddiol i fywyd gwyllt a bioamrywiaeth, gan gefnogi nifer o beillwyr a phryfed. Yn yr amgylchedd iawn mae Llysiau'r Gingroen yn beth cadarnhaol ac ni ddylid ei ddinistrio. Fodd bynnag, mae'n cael ei ystyried fel chwyn niweidiol gan ei fod yn wenwynig i dda byw.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 2.00 pm

Mae gan Lywodraeth Cymru god ymarfer penodol ar Lysiau'r Gingroen sydd i'w weld yn llawn ar wefan LIC. Pwynt allweddol yw y bydd y rhan fwyaf o anifeiliaid pori fel gwartheg, ceffylau a defaid yn osgoi bwyta Llysiau'r Gingroen cyffredin ac mae'n berygl yn bennaf wrth eu cynnwys mewn gwair. Y cyngor presennol yw mai dim ond o ardaloedd sy'n cael eu trin ar gyfer bwyd anifeiliaid y dylid tynnu Llysiau'r Gingroen neu lle mae pori'n gyfyngedig.

Nid oes gan Gyngor Sir Fynwy gynlluniau penodol i glirio Llysiau'r Gingroen o ymylon ffyrdd ond mae rhannau mawr wedi'u dileu â llaw lle codwyd pryderon wrth ymyl tir a ddefnyddir ar gyfer pori. Dywedwyd nad yw aelodau'r cyhoedd yn ceisio tynnu planhigion na'u chwistrellu â chwynladdwr.

17. O'r Cyngorydd Sirol Fay Bromfield i'r Cyngorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

A all yr aelod cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau y mae'r weinyddiaeth yn eu cael gyda Dŵr Cymru ynghylch iechyd ein hafonydd?

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod Cyngor Sir Fynwy yn ymwneud yn uniongyrchol â thrafodaethau ansawdd dŵr yn rheolaidd o fewn Partneriaethau Afonydd Wysg a Gwy, sy'n cynnwys Dŵr Cymru, yr asiantaethau rheoleiddio, awdurdodau lleol cyfagos, grwpiau ffermio ac amgylcheddol. Roedd ffocws mawr ar gyfer y trafodaethau hyn yn tueddu i fod ar y maetholion, ffosffadau a nitradau gormodol, sy'n achosi difrod i amrywiaeth afonydd.

Fel sylw atodol, croesawodd y Cyngorydd Sir Bromfield ragor o wybodaeth, yn enwedig ynghylch Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau bob chwarter, y cytunodd hi i wneud hynny. Cytunodd y Cyngorydd Sirol Maby hefyd i anfon y wybodaeth ddiweddaraf am y mater yn ymwneud â bacteria a nofio.

18. O'r Cyngorydd Sirol Tony Kear i'r Cyngorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a'r Dirprwy Arweinydd

A all yr Aelod Cabinet ddiweddarau'r Cyngor ar yr adolygiad arfaethedig o daliadau meysydd parcio ledled y Sir?

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod ymgynghorydd wedi'i benodi i gefnogi adolygiad y maes parcio ac ar hyn o bryd mae'n cynnal astudiaeth sylfaen, gan gasglu data ar ddefnydd cyfredol a hanesyddol. Yn dilyn cyfarfod sydd ar y gweill, y gobaith yw y byddai'r astudiaeth yn symud ymlaen i ymgysylltu â chymunedau, busnesau, cynghorau tref a chymuned ac Aelodau. Byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal pe bai unrhyw gynigion ar gyfer newid yn deillio o'r broses.

Fel sylw atodol cyfeiriodd y Cyngorydd Sirol Kear at arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Brynbuga a welodd dros 1600 o ymatebion a gofynnodd am sicrwydd y byddai'r nifer enfawr o ymatebion a safbwyntiau cryf yn cael eu hystyried yn y cyfnod ymgynghori ac na fyddai trefn codi tâl cael eu gweithredu i godi refeniw.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet fod yna lawer o amcanion i drefn gwefru mewn meysydd parcio, ac un ohonynt oedd codi refeniw, a nododd mai ychydig iawn o bobl sy'n ffafrio talu ffioedd.

19. O'r Cyngorydd Sirol Tony Kear i'r Cyngorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a'r Dirprwy Arweinydd

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 2.00 pm

A all yr Aelod Cabinet gyngori am ddyraniad presennol swyddogion gorfodi parcio o amgylch Sir Fynwy, a sail y dyraniad hynny?

Dyweddodd yr Aelod Cabinet fod 5 swyddog o fewn y tîm Gorfodi Parcio Sifil, ond gyda phroblemau staffio mae llai na hanner y nifer hwn fel arfer yn patrolio. Credwyd nad oedd y lefel uchaf o orfodaeth yn digwydd. Sicrhawyd yr Aelod Cabinet fod yr adolygiad ar daliadau parcio ceir yn cynnwys adlewyrchiad o'r drefn ar gyfer gorfodi.

Fel sylw atodol cyfeiriodd y Cyngorydd Sirol Kear at y mater o barcio melyn dwbl ym Mrynbuga a gofynnodd i'r Aelod Cabinet gytuno i weithio gydag aelodau'r ddwy ward i sicrhau bod dyraniad tecach i Frynbuga pan gynhelir yr adolygiad, a bod mwy o amser yn cael ei roi i faterion gorfodi nag sy'n cael ei dreulio ar hyn o bryd ym Mrynbuga. Cytunodd yr Aelod Cabinet i weithio gyda'r Cyngorwyr Kear, Howells a rhanddeiliaid ym mhob agwedd o'r adolygiad.

20. O'r Cyngorydd Sirol Tony Kear i'r Cyngorydd Sirol Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg

A all yr Aelod Cabinet ddiweddarau'r Cyngor ar yr adolygiad arfaethedig o daliadau meysydd parcio ledled y Sir?

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod ymgynghorydd wedi'i benodi i gefnogi adolygiad y maes parcio ac ar hyn o bryd mae'n cynnal astudiaeth sylfaen, gan gasglu data ar ddefnydd cyfredol a hanesyddol. Yn dilyn cyfarfod sydd ar y gweill, y gobaith yw y byddai'r astudiaeth yn symud ymlaen i ymgysylltu â chymunedau, busnesau, cyngorau tref a chymuned ac Aelodau. Byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal pe bai unrhyw gynigion ar gyfer newid yn deillio o'r broses.

Fel sylw atodol cyfeiriodd y Cyngorydd Sirol Kear at arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Brynbuga a welodd dros 1600 o ymatebion a gofynnodd am sicrwydd y byddai'r nifer enfawr o ymatebion a safbwyntiau cryf yn cael eu hystyried yn y cyfnod ymgynghori ac na fyddai trefn codi tâl cael eu gweithredu i godi referniw.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet fod yna lawer o amcanion i drefn gwefru mewn meysydd parcio, ac un ohonynt oedd codi referniw, a nododd mai ychydig iawn o bobl sy'n ffafrio talu ffioedd.

21. O'r Cyngorydd Sirol Paul Pavia i'r Cyngorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a'r Dirprwy Arweinydd

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i leddfu tagfeydd traffig yng Nghas-gwent a'r cyffiniau?

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod LIC bellach yn cynnal astudiaeth WELTAG ar y dyluniad posibl ar gyfer gwelliannau yng Nghylchfan High Beech. Fis diwethaf roedd cydweithwyr yn y Cabinet wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru, Ken Skates ac wedi dadlau y byddai'r M48 yn llawer mwy cynhyrchiol pe bai mynediad ati o Rhosied a Chil-y-coed. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet am chwilio am ffyrdd o wneud gwell defnydd o'r rhwydwaith presennol.

Mae rheilffyrdd yn gwella yng Nghas-gwent ac erbyn diwedd y flwyddyn bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu gwasanaeth bob awr. Pan fydd y gwasanaeth traws gwlad yn cael ei gynnwys, bydd gwasanaeth hanner awr. Yn ogystal, y mis nesaf bydd Trafnidiaeth Cymru yn ymgynghori ar gynnig prisiau sy'n capio'r pris dyddiol yn rhanbarth De Cymru i £7, a'r tocyn wythnosol i £20.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 19eg Medi, 2024 at 2.00 pm

O ran bysiau, canmolodd yr Aelod Cabinet Bws Casnewydd am eu hamrywiaeth o wasanaethau newydd yn ardal Cas-gwent.

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cyngorydd Sirol Pavia am eglurder ynghylch cyllid ar gyfer cam WELTAG ar gyfer Ffordd Osgoi Cas-gwent a gofynnodd a oedd cyllid gan Lywodraeth y DU wedi'i gymeradwyo ac os felly pryd fyddai'r broses dendro yn dechrau.

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod Llywodraeth y DU wedi dyrannu £5.9m yn gynharach eleni i gefnogi ystod o gynigion trafndiaeth ar gyfer Cas-gwent. Roedd y weinyddiaeth wedi ymateb y gallent ymgymryd â rhan helaeth o'r gwaith a bennwyd ond y byddent yn ceisio cyfeirio £500,000 at astudiaeth ar y cyd â Swydd Gaerloyw, nid yn benodol ar Ffordd Osgoi Cas-gwent ond astudiaeth ar yr holl opsiynau ar gyfer gwella symudedd ar draws Aber Afon Hafren. Ers cyflwyno'r ymateb, mae Llywodraeth newydd y DU yn edrych eto ar yr amlen ariannu gyfan a'r cynigion ariannu sy'n weddill.

22. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 24ain Hydref 2024

The meeting ended at 6.20 pm